# Y PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

## CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU: PLANT A PHOBL IFANC

### Diben

Gofynnir i’r Pwyllgor ymateb i’r ymgynghoriad ar y cylchlythyr drafft "CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU: PLANT A PHOBL IFANC".

### Crynodeb

Mae’r papur hwn yn cynnwys

- gwybodaeth gefndir;
- pam fod angen cylchlythyr newydd;
- cynnwys y cylchlythyr drafft;
- y prif wahaniaethau rhwng "Cylchlythyr 54/95 – Camddefnyddio Cyffuriau: Atal a’r Ysgolion" a’r cylchlythyr drafft newydd;
- manylion y broses ymgynghori; a
- chwestiynau posibl i’r pwyllgor eu hystyried wrth ymateb i’r cylchlythyr drafft.

### Amseru

Lansiwyd y broses ymgynghori ar y cylchlythyr drafft ar 29 Hydref. Daw’r broses ymgynghori i ben ar 28 Rhagfyr. Bydd trafodaeth y Pwyllgor yn ffurfio rhan o’r broses hon.

### Cefndir

Ar hyn o bryd mae Cylchlythyr 54/95 Y Swyddfa Gymreig– "Camddefnyddio Cyffuriau: Atal a’r Ysgolion" yn rhoi arweiniad i ysgolion ar addysgu plant a phobl ifanc ynghylch peryglon camddefnyddio sylweddau. Hefyd, mae’n cynnig cyngor ar sut i ymdrin â digwyddiadau o’r fath. Ers iddo gael ei gyhoeddi ym mis Hydref 1995, ni chyhoeddwyd unrhyw ganllawiau penodol pellach yng Nghymru ar gamddefnyddio sylweddau mewn ysgolion.

### Ystyriaeth

*Pam fod angen cylchlythyr newydd?*

Un o brif anfanteision Cylchlythyr 54/95 yw bod angen diweddaru'r cyfeirnodau, y cyfeiriadau a'r enwau cyswllt; nid yw'n adlewyrchu'r canllawiau cyfredol ar arfer da; ac, yn hollbwysig, mae yma gyfle delfrydol i ni adolygu'r maes amlwg hwn wrth ail-ddrafftio'r cylchlythyr.

*Cynnwys y cylchlythyr drafft*

Mae'r cylchlythyr drafft yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- natur a maint problem camddefnyddio sylweddau ymysg plant a phobl ifanc;
- datblygu polisi camddefnyddio sylweddau effeithiol;
- ymdrin â digwyddiadau sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau;
- canllawiau ar ymarfer da wrth addysgu plant a phobl ifanc ynghylch peryglon camddefnyddio sylweddau; a
- gwybodaeth ychwanegol.

Mae'r cylchlythyr drafft yn wahanol i "Gylchlythyr 54/95 – Camddefnyddio Cyffuriau: Atal a'r Ysgolion" ar sawl agwedd. Y prif wahaniaethau yw:

- Nid yw'n cael ei anelu'n unig at ysgolion, ond at yr holl gyrff sy'n darparu cyfleoedd addysgol i bobl ifanc.
- Mae'n cynnwys arweiniad ar yr ystod eang o sylweddau sy'n cael eu camddefnyddio yng Nghymru, gan gynnwys tybaco, alcohol, toddyddion, cyffuriau wedi'u rhagnodi, cyffuriau a geir dros y cownter, ynghyd â chyffuriau anghyfreithlon.
- Mae'n defnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf ar arfer da, a gyhoeddwyd gan adrannau'r llywodraeth yn Lloegr a'r Alban a chyrff annibynnol megis DrugScope.
- Mae'n manteisio ar gynnwys dogfennau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys "Ymestyn Hawliau", "Cynnal Disgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol", a "Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid Cymru".
- Mae'n adlewyrchu'r strwythurau trefniadol presennol o fewn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Leol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.
- Mae'n adlewyrchu'r strwythur partneriaeth i ymdrin â chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru, sef y Timau Gweithredu Cyffuriau ac Alcohol a'r Timau Gweithredu Lleol.

*Manylion y broses ymgynghori*

Dechreuodd y broses ymgynghori eang ar y cylchlythyr drafft ar 29 Hydref. Ymysg y rhai a dderbyniodd y drafft ymgynghori, mae trawsdoriad cynrychioladol o ysgolion; sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch; ELWa; yr holl AALl; Cymdeithas Cyfarwyddwyr

Gwasanaethau Cymdeithasol; Timau Gweithredu Cyffuriau ac Alcohol; y Panel Ymgynghorol ar Gamddefnyddio Sylweddau; holl heddluoedd Cymru; Asiantaeth Ieuenctid Cymru; CGGC a'r sefydliadau gwirfoddol sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau; y Comisiynydd Plant; Childline; a'r Rhwydwaith Hybu Iechyd mewn Ysgolion. Yn ogystal, bwriedir cynnal gweithdy er mwyn rhoi cyfle i bobl ifanc fynegi'u barn.

Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 28 Rhagfyr. Caiff yr holl ymatebion eu hystyried yn ofalus, a bydd y cylchlythyr drafft yn cael ei ddiwygio'n unol â hynny. Disgwylir i'r Cylchlythyr diwygiedig gael ei gyhoeddi yn ystod y gwanwyn 2002.

*Materion yn codi*

Gwahoddir y Pwyllgor i gyflwyno'i sylwadau ar unrhyw agweddau ar y cylchlythyr drafft. Yn arbennig, hoffem dderbyn eich sylwadau ar:

- unrhyw wybodaeth ychwanegol y dylid ei chynnwys;
- a ddylid targedu unrhyw elfennau arbennig yn benodol at sefydliadau neu grwpiau neilltuol;
- a ddylid ei gyhoeddi ar ffurf arbennig (ee) dogfen sengl, plygell dalennau rhydd, etc; a
- pa fesurau ymarferol y dylid eu mabwysiadu er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cylchlythyr ar ôl ei gyhoeddi.

**Cydymffurfio**

Mae Adran 10 o Ddeddf Addysg 1996 yn galluogi'r Cynulliad i hyrwyddo addysg pobl Cymru. Mae swyddogaethau o dan y Ddeddf hon wedi'u dirprwyo i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Nid oes unrhyw faterion o reoleidd-dra na phriodoldeb.

Daw'r costau argraffu a dosbarthu ar gyfer y cylchlythyr drafft ynghyd â fersiwn terfynol y Cylchlythyr o Gyllideb Gyhoeddusrwydd yr Is-adran Cymorth Disgyblion, a disgwylir mai £15,500 fydd cyfanswm y costau hynny.

**Themâu Trawsbynciol**

Er mwyn sicrhau bod amcanion y Cylchlythyr drafft yn cael eu cyflawni, sef llunio dull trawsbynciol, cynhwysfawr o gyflwyno'r maes polisi hollbwysig hwn yn y dyfodol, rydym yn ymgynghori â'r holl asiantaethau a chyrff perthnasol. Wrth reswm, mae hyn hefyd yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â chyfle cyfartal.

**Casgliad**

Gwahoddir y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes i gyflwyno'i sylwadau ar y cylchlythyr drafft amgaeedig.

**Enw Cyswllt**

Mei Lin Ng, Yr Is-adran Cymorth Disgyblion, est. 3317